Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cyflawni newid gyda'n gilydd

## Trosolwg o gydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith Gymraeg 2023–24

Awst 2024



# Cynnwys


**Rhagair** **4**

**1. Prif gasgliadau'r adroddiad** **5**

**2. Deilliannau Rheoleiddio** **11**

**3. Cyflawni'r Deilliannau** **13**

**Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur** **13**

Darlun cyffredinol 13

Technoleg, gwasanaethau digidol a'r Gymraeg 14

Ymateb i'r her: Sectorau Iechyd ac Addysg 14

Capasiti i ddarparu gwasanaethau – Pwysigrwydd prosesau recriwtio a datblygu sgiliau Cymraeg staff 19

Cynlluniau iaith Gymraeg 21

**Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt** **24**

Arolwg Siaradwyr Cymraeg: Tachwedd 2023 25

Iaith ar Daith 27

**Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg** **29**

Llinell Ymholi Allweddol 31

**Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd** **32**

Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith 32

Adolygiad o bolisïau 34

## Cynnwys

**Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd** **35**

Strategaethau Hybu 35

**Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defynddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo** **39**

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol 42

**Atodiad 1: Trosolwg o ganlyniadau gwirio cyffredinol** **44**

**Atodiad 2: Tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad** **45**

**Atodiad 3: Rhestr o sefydliadau a arolygwyd ar gyfer canyddiadau arolygon gwirio** **46**

# Rhagair

Yn fy adroddiad cyntaf fel Comisiynydd y Gymraeg y llynedd, gosodais her glir a chadarn i sefydliadau – her i godi'r bar a chynyddu lefelau cydymffurfiaeth yn y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y sector iechyd – sector sydd o bwys arbennig i mi o ystyried y gwahaniaeth y gall y Gymraeg ei chael ar ansawdd gofal unigolion.

Rwy'n falch felly o allu adrodd bod lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, â nifer cynyddol yn darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd ar bob achlysur. Mae hefyd yn galonogol gweld fod y sector iechyd, ar ôl sawl blwyddyn o berfformio'n isel, yn gwneud cynnydd da mewn nifer o wasanaethau allweddol.

Er bod cynnydd i'w weld, mae gwaith pellach i'w wneud os ydym am gyflawni'r deilliannau rheoleiddio rydym wedi eu gosod, a thrwy hynny, wireddu ein gweledigaeth o Gymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg.

Un elfen hanfodol sy'n aml yn pennu llwyddiant yw momentwm. Dyma'r grym sy'n ein gyrru ni ymlaen – sy'n ein helpu ni i adeiladu wrth weithredu, dysgu o brofiadau, a defnyddio'r wybodaeth honno i wella. **Mae angen i sefydliadau barhau i wella os ydym am gyrraedd y lefelau uchel o gydymffurfiaeth rydym i gyd eisiau eu gweld.**

Ar ddechrau'r flwyddyn cyhoeddais fy mwriad o fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o 'gyd-reoleiddio'; dull sy'n ymestyniad naturiol o'm hawydd cyffredinol i weithio'n agos gyda sefydliadau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd cynnal trafodaethau agored a pharhaus yn ystod y flwyddyn i ddod yn gymorth i mi gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n eich wynebu chi fel sefydliadau wrth ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau Cymraeg. Bydd hefyd yn sail i gydweithio er mwyn ystyried atebion, manteisio ar gyfleoedd, a hybu syniadau newydd. Rwy'n siŵr, drwy'r dull cydweithredol hwn, y gwelwn gynnydd pellach dros y 12 mis nesaf wrth i ni barhau ar ein taith ar y cyd tuag at gyflawni'r deilliannau rheoleiddio.

Felly, er bod fy ymrwymiad personol i weithio gyda chi fel sefydliadau yn ddiwyro, mae fy nisgwyliadau uchel ohonoch chi'n parhau. Rhaid gwneud i ffwrdd â'r ansicrwydd sy'n parhau'n rhwystr i ddefnyddwyr y Gymraeg drwy warantu gwasanaethau Cymraeg o safon bob amser, a pharhau â'r gwaith hollbwysig o gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.





**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

# 1. Prif gasgliadau'r adroddiad

## Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur

**1.1** Mae cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â safonau'r Gymraeg yn gwella ac mae sicrwydd uchel bod nifer o sefydliadau yn darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.

**1.2** Rydym yn falch i nodi bod y sectorau iechyd ac addysg wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her a osodwyd iddynt y llynedd a gwelwyd cynnydd cyffredinol yn eu cydymffurfiaeth. Mae ein gwaith arolygu hefyd wedi adnabod lle mae'r sefydliadau hynny wedi buddsoddi amser ac adnoddau i newid eu trefniadau er gwell.

**1.3** Fodd bynnag, mae dal gwaith i'w wneud yn y blynyddoedd nesaf os ydym am weld y sefydliadau hyn yn darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel, ac yn gwarantu profiad cyfrwng Cymraeg i ddefnyddwyr ar bob achlysur.

### Casgliad

**Mae angen i'r sector iechyd barhau i gymryd camau bwriadol a phenodol i gynyddu capasiti a chreu gweithleoedd sy'n fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr y Gymraeg.**

**Mae angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG fwrw ymlaen â'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredol cyraeddadwy i gynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf.**

**Os ydym am weld ein pobl ifanc yn cynnal eu sgiliau Cymraeg ac yn troi'n ddefnyddwyr hyderus, mae angen i brifysgolion a cholegau addysg bellach fynd i'r afael â'r diffygion sy'n parhau mewn perthynas â rhai gwasanaethau.**

**1.4** Mae cryn dipyn o ddryswch ac anghysondeb yn parhau yn y modd y mae sefydliadau yn mynd ati i ddynodi'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar swyddi gwag wrth recriwtio.

**1.5** Mae lefelau ymwybyddiaeth staff sy'n rhan o'r broses recriwtio o'r gofynion i bennu lefel sgiliau, a sut i wneud hynny, yn amrywio. Golyga hyn fod sefydliadau yn aml yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol y safon berthnasol.

**Casgliad**

**Mae angen sicrhau gwell cysondeb yn y modd y pennir sgiliau iaith Gymraeg wrth recriwtio a hysbysebu.**

**Er mwyn cynyddu capasiti a gallu gweithleoedd i weithredu'n Gymraeg, mae angen i sefydliadau barhau i werthuso eu dulliau recriwtio, ac addasu'r dulliau hynny yn ôl yr angen.**

**1.6** Er bod cynnydd a gwaith da yn digwydd mewn mannau, mae lefelau cydymffurfiaeth yn gyffredinol is ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Mae hyn yn dangos bod cyfundrefn orfodol safonau'r Gymraeg yn llawer mwy effeithiol, ac yn arwain at well gwasanaethau a chynnydd gwirioneddol mewn cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**1.7** Os ydym am weld yr un patrwm o gynnydd ag a welwyd yn sgil dyfodiad y safonau, mae'n hanfodol dod â'r sefydliadau hyn o dan y gyfundrefn honno hefyd.

**Casgliad**

**Mae parhau â'r rhaglen o ymestyn safonau'r Gymraeg i sefydliadau cyhoeddus eraill yn allweddol os ydym am gyflawni ein deilliannau rheoleiddio, ac yn ei thro, ein gweledigaeth o Gymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg.**

## Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt

**1.8** Mae'r ystod o wasanaethau sydd bellach ar gael yn Gymraeg yn uwch nag erioed. Fodd bynnag, mae angen gwaith pwrpasol a phenodol gan sefydliadau i'w hyrwyddo os ydym am godi ymwybyddiaeth a newid arferion defnyddwyr.

**1.9** Mae dyletswyddau hyrwyddo syml i newid ymddygiad yn cael eu methu gan sefydliadau. Er enghraifft, cynnwys datganiad byr yn hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg cyfatebol neu ei gwneud yn glir fod sefydliad yn annog ac yn derbyn gohebiaeth neu alwadau Cymraeg.

### Casgliad

**Mae angen i bob sefydliad wneud mwy i amlygu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, gan sicrhau fod y Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei chynnig yn hwylus. Fel isafswm, disgwyliwn i sefydliadau fynd ati i gymryd camau pwrpasol i wella cydymffurfiaeth â'r safonau 'hybu' cysylltiedig.**

## Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

**1.10** Ein canfyddiad cyson ynghylch penderfyniadau polisi yw nad yw'r gweithdrefnau y mae sefydliadau wedi eu rhoi mewn lle yn cael eu dilyn. Gall hynny fod o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch pryd mae'r safonau'n gymwys, â sefydliadau'n aml yn ansicr a yw penderfyniad yn benderfyniad polisi yntau yn benderfyniad gweithredol.

**1.11** Yn yr achosion lle mae gweithdrefnau'n cael eu dilyn, pur anaml y byddwn yn canfod fod sefydliad wedi ystyried pob ffactor perthnasol amlwg. Hyd yn oed os yw'r ffactorau hynny wedi eu hystyried, yn amlach na pheidio, nid yw'r ystyriaeth a roddir yn ddigon manwl na threiddgar i alluogi'r sefydliad i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch yr effaith wirioneddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**1.12** Mae gwaith pellach i'w wneud felly er mwyn codi ymwybyddiaeth sefydliadau o ofynion y safonau llunio polisi a sut mae cydymffurfio â nhw.

### Casgliad

**Yn dilyn gwaith pellach y Comisiynydd ar drefniadau asesu effaith, bydd angen i sefydliadau weithredu ar gyngor neu argymhellion dilynol.**

## Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd

**1.13** Mae ein gwaith monitro'n awgrymu bod sefydliadau'n adrodd eu bod yn cydymffurfio'n uchel â'r amryw ofynion mewn perthynas â gweinyddiaeth fewnol corff, er enghraifft, darparu mewnrwyd a rhyngwynebau cyfrifiadur yn Gymraeg, neu bolisïau a chontractau cyflogaeth.

**1.14** Er bod gan sefydliadau bolisïau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn unol â'r safon berthnasol, mae diffyg gweledigaeth ar sut y bwriedir i'r polisïau yma arwain at gynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd dros amser.

**1.15** Yn gyffredinol, nid yw'r polisïau'n ymhelaethu ar unrhyw fwriadau neu gynlluniau penodol i hwyluso neu gefnogi cynnydd yn nefnydd staff o'r Gymraeg. Yn amlach na pheidio, gwelir polisïau sydd wedi eu cyfyngu i ddatganiadau sy'n cadarnhau'r hyn sy'n ofynnol iddynt ddarparu yn unol â safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y ddarpariaeth Gymraeg i staff sy'n ofynnol drwy'r safonau gweithredu eraill.

**1.16** Yn syml, dogfennau polisi sy'n aml yn disgrifio'r status quo yw nifer ohonynt, yn hytrach na dogfennau sy'n gosod cyfeiriad strategol clir i'r sefydliad ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

### Casgliad

**Mae angen i bob sefydliad ystyried a yw eu polisi presennol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn debygol o sbarduno'r newid positif sydd ei angen i alluogi staff i fyw bywyd gwaith yn gynyddol drwy'r Gymraeg.**

**Ochr yn ochr â'n gwaith prosiect yn y maes hwn, ac yn rhan o'n gwaith i hybu cydymffurfiaeth, byddwn yn gweithio â sefydliadau i nodi ac adnabod cyfleoedd posibl i weithio tuag at gyflawni'r deilliant hwn.**

## Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd

**1.17** Mae'n ymddangos bod gan bob cyngor sir ac awdurdod parc cenedlaethol strategaeth sy'n mynd i'r afael â hyrwyddo, diogelu a meithrin y Gymraeg o fewn eu hardaloedd.

1.18 Mae mwyafrif helaeth y sefydliadau yn cynnwys y wybodaeth sylfaenol y gofynnir amdani yn safon 145, gan gydymffurfio felly â'r gofynion statudol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder fod nifer bychan o sefydliadau yn parhau i fethu gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal, ac eraill wedi methu gwneud datganiad ynghylch sut y byddant yn cyrraedd y targedau sydd wedi eu gosod.

1.19 Mae'n bryder hefyd fod 10 o'r 25 sefydliad wedi methu cydymffurfio â safon 146 gan nad ydynt wedi cyhoeddi rhestr o'r gweithgareddau y maent wedi eu trefnu er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

1.20 Byddwn yn cysylltu gyda'r sefydliadau hynny nad yw eu strategaethau'n cydymffurfio â gofynion y safonau er mwyn trafod y camau sydd angen eu cymryd er mwyn unioni'r sefyllfa.

### Casgliad

**Mae angen i sefydliadau sicrhau bod eu strategaethau hybu nid yn unig yn cydymffurfio â gofynion sylfaenol y safonau, ond yn cyrraedd eu llawn botensial o ran eu cyfraniad at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Comisiynydd yn cymryd rôl mwy rhagweithiol wrth roi cyngor ac arweiniad i sefydliadau ar fersiynau nesaf y strategaethau hynny.**

## Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo

1.21 Rydym yn disgwyl i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel gan sefydliadau ac i bethau cael eu cywiro pan fyddant yn mynd o chwith. Pan fo pethau'n mynd o chwith, dylai fod gan ddefnyddwyr y Gymraeg fynediad i weithdrefnau cwynion tryloyw ac effeithiol.

1.22 Wrth i ni symud fwyfwy at ddull o gyd-reoleiddio, rydym am annog defnyddwyr y Gymraeg i godi pryderon a phroblemau maent yn eu profi yn uniongyrchol â'r sefydliad dan sylw pan fo modd.

1.23 Fodd bynnag, mae'n bwysig fod gweithdrefnau sefydliadau yn rhoi llais cryf i ddefnyddwyr, ac yn eu galluogi nhw i ddeall eu perfformiad yn well, i wneud newidiadau, ac i wella'n barhaus.

1.24 Byddwn yn cydweithio â sefydliadau yn ystod y flwyddyn i ddod i sicrhau bod gweithdrefnau hygyrch a phriodol mewn lle ar gyfer delio â chwynion, gan roi cyngor iddynt ar sut i gryfhau eu trefniadau lle bo angen.

### Casgliad

**Wrth ddelio â chwynion, dylai sefydliadau fod yn agored i drafod pryderon, gan annog adborth barhaus gan ddefnyddwyr.**

**Fe ddylai sefydliadau ei gwneud hi'n glir sut mae cwyno, pa drefniadau sydd mewn lle i ddelio â chwynion, ac ymrwymo i newid pan fo pethau wedi mynd o chwith.**

1.25 Mae ein gwaith monitro yn dangos fod gan rai sefydliadau drefniadau hunan-reoleiddio cadarn mewn lle a'u bod yn goruchwylio cydymffurfiaeth yn gyson. Mae'r gwaith hwn hefyd yn dangos bod sefydliadau'n perfformio'n well pan mae strwythur atebolrwydd a chadarn mewn lle.

1.26 Fodd bynnag, mae llawer o sefydliadau yn methu cydymffurfio'n llawn â rhai o'r safonau perthnasol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r gofynion i gyhoeddi dogfennau sy'n amlinellu eu trefniadau goruchwylio, a sut maent yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau.

1.27 Os ydym am weld cynnydd ystyrlon yng ngallu sefydliadau i hunan-reoleiddio ac i roi trefniadau goruchwylio cadarn mewn lle, mae'n bwysig bod y safonau sy'n ymdrin â'r materion atodol yn cael sylw teilwng ganddynt.

### Casgliad


**Mae peth amser wedi pasio ers i'r sefydliadau cyntaf ddechrau gweithio o dan y safonau. Mae'n amserol felly i sefydliadau ystyried pa addasiadau sydd eu hangen i gryfhau trefniadau llywodraethiant er budd defnyddwyr y Gymraeg.**

# 2. Deilliannau Rheoleiddio


**2.1** Er mwyn sicrhau bod y gwaith o reoleiddio cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yn cael ei osod yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith, rydym wedi datblygu a gosod y deilliannau rheoleiddio canlynol.



**Deilliant 1:** Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur




**Deilliant 2:** Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt



**Deilliant 3:** Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg



**Deilliant 4:** Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd




**Deilliant 5:** Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd



**Deilliant 6:** Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defynddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



2.2 Ein bwriad wrth gyflwyno'r deilliannau hyn yw iddynt, ymysg pethau eraill:

- osod safonau'r Gymraeg a'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith
- darparu datganiadau tryloyw cyhoeddus o'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni, a sut y byddwn yn gallu dangos pan fyddwn wedi ei gyflawni
- sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a
- lliniaru'r risg bod sefydliadau yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth caeth yn hytrach na chanlyniadau da i ddefnyddwyr y Gymraeg.

2.3 Yn gyson â'n dull o gyd-reoleiddio, ein bwriad yw i'r deilliannau hyn gynrychioli nodau ac amcanion cyffredin Comisiynydd y Gymraeg, sefydliadau cyhoeddus a defnyddwyr y Gymraeg, a'n bod ni i gyd yn eu perchnogi.

2.4 Pwrpas yr adroddiad hwn, wrth gwrs, yw rhoi barn Comisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith. Gwnaed hynny am y tro cyntaf eleni drwy ystyried cydymffurfiaeth sefydliadau yng nghyd-destun y deilliannau rheoleiddio rydym wedi eu gosod, gan asesu'r graddau mae lefelau cydymffurfiaeth presennol yn debygol o'n harwain at gyflawni'r deilliannau yma.

# 3. Cyflawni'r Deilliannau

## Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur

### Darlun cyffredinol

**3.1** Mae ein gwaith rheoleiddio dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos, yn gyffredinol, fod lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg yn gwella.

**3.2** Ceir mwy o sicrwydd bellach bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd, ac mae ein harolygon gwasanaeth yn dangos bod nifer cynyddol o sefydliadau o bob sector, ac ar draws Cymru, yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd ar bob achlysur.

**3.3** Ymhellach i hynny, mae'r sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Rhif 1, sef Awdurdodau Lleol, Gweinidogion Cymru a'r Parciau Cenedlaethol, yn cydymffurfio â 90% o'r prif ofynion ar gyfer 9 o'r meysydd gwasanaeth a arolygwyd.

**3.4** Yr unig wasanaeth sy'n parhau â lefelau cydymffurfiaeth is yw galwadau ffôn, lle cafodd 78% o ymholiadau eu hateb yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn gynnydd ar berfformiad y llynedd (2022–23) pryd cafodd 63% o alwadau eu hateb yn Gymraeg.

#### Arfer llwyddiannus

Mae canlyniadau gwasanaeth ffôn dau Gyngor oedd yn perfformio'n is yn hanesyddol bellach wedi cyrraedd 100% yn ystod arolygon 2023–2024. Mae hyn o ganlyniad iddynt recriwtio mwy o staff â sgiliau Cymraeg.

**3.5** Wrth i fwy a mwy o wasanaethau gael eu darparu ar-lein, mae'n gadarnhaol nodi bod ein harolygon yn canfod bod 90% o dudalennau gwe ar draws yr holl sefydliadau a arolygwyd eleni ar gael yn Gymraeg. Gwerth nodi hefyd fod y ganran ar gyfer sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Rhif 1, 2 a 4 yn 99%.

**3.6** Roedd 89% o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol Facebook ac X sefydliadau ar gael yn Gymraeg. Yn gyson â'r canfyddiad cyffredinol y llynedd, mae'r sectorau hynny sydd wedi gweithredu safonau'r Gymraeg am gyfnod hirach yn cyhoeddi 96% o'u negeseuon yn ddwyieithog.

**3.7** Darperir trosolwg cyffredinol o gydymffurfiaeth y sefydliadau yr arolygwyd â gweithgareddau cyflenwi gwasanaeth eraill yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## Technoleg, gwasanaethau digidol a'r Gymraeg

**3.8** Mae hefyd yn dda nodi'r arloesi sy'n digwydd ym maes gwasanaethau digidol, a hynny er mwyn sicrhau bod gallu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn parhau a chynyddu wrth i arferion newid. Mae modd darllen am brofiadau Canolfan y Mileniwm yn symud i ddefnyddio dulliau sgwrsio ar-lein yn ddwyieithog yma: Arfer Effeithiol defnyddio 'sgwrsfot' Cymraeg.

**3.9** Mae datblygiadau technolegol, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) at ddibenion cyffredinol, yn codi sawl ystyriaeth newydd ar gyfer rheoleiddio safonau'r Gymraeg yn effeithiol i'r dyfodol. Er bod datblygiadau technolegol o'r math hwn yn cynnig cyfleoedd newydd i gefnogi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, mae hefyd risg na chaiff y Gymraeg ei gwreiddio mewn datblygiadau o'r fath.

**3.10** Yn unol â'n hymrwymiad i weithredu dull o gyd-reoleiddio, a chan gydnabod y buddion cyfunol o gyd-ddeall a rheoli unrhyw risgiau posibl i gydymffurfiaeth wrth i dechnoleg esblygu ac arloesi, byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall yn well goblygiadau technoleg ar gyfer y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ni fel rheoleiddiwr gefnogi sefydliadau wrth iddynt dreialu ffyrdd newydd o weithio cyn eu defnyddio yn ehangach.

**3.11** Bydd y gwaith yma'n darparu sail gadarn i ni ddatblygu safbwynt polisi ar reoleiddio AI mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Ymateb i'r her: Sectorau Iechyd ac Addysg

**3.12** Yn ein hadroddiadau sicrwydd blaenorol – Y Gymraeg fel ffordd o weithio (2021–22) a Codi'r Bar (2022–23) codwyd pryderon ynghylch lefel perfformiad sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6 (Colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion) a Rhif 7 (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG), gan nodi eu bod yn gyson is na'r sefydliadau hynny sydd wedi bod yn gweithredu safonau'r Gymraeg am gyfnod hirach.

**3.13** Mae derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig pan mae pobl ar eu mwyaf bregus, yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n hollbwysig felly fod pobl, wrth iddynt ymwneud â'r sector iechyd, yn cael cynnig derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith. Dyna'r unig ffordd y byddant yn derbyn y gofal maen nhw'n ei haeddu a'i angen.

**3.14** Yn yr un modd, mae'n hollbwysig fod ein pobl ifanc ni – y bobl hynny fydd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y gymuned ac wrth ddefnyddio gwasanaethau yn y dyfodol – yn gallu ymwneud â'n colegau a'n prifysgolion ni yn Gymraeg yn hwylus a didrafferth.


**3.15** Gosodwyd her i'r sectorau hyn yn benodol i godi'r bar ac i fynd ati yn egnïol i wneud i ffwrdd â'r ansicrwydd sydd i ddefnyddwyr y Gymraeg.

### Rheoliadau Rhif 7 – Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**3.16** Mae'n galonogol nodi ein bod wedi gweld cynnydd cyffredinol yn lefelau cydymffurfiaeth Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


**3.17** Mae'r graff isod yn dangos cynnydd ymhob maes. Er hynny, mae'n bwysig nodi bod lefelau cydymffurfiaeth yn parhau yn gyffredinol is na sectorau eraill.

**Lefelau cydymffurfiaeth gwasanaethau allweddol**



**3.18** Gan droi at wasanaethau ffôn y sector iechyd yn ystod yr un cyfnod, mae'r graff isod yn dangos y cynnydd a'r gwelliant sydd wedi bod yng ngallu'r sefydliadau i gyfarch galwadau ffôn yn Gymraeg (safon 8) ac wrth roi gwybod i alwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael (safon 9).

**Gwasanaethau ffôn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG**




**3.19** Fodd bynnag, fel mae'r graff uchod yn dangos, mae gallu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i ddelio â galwadau yn llawn yn Gymraeg (safon 11) yn parhau'n heriol.

### Astudiaeth achos

Drwy waith monitro'r Comisiynydd a chŵyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd, roedd amheuaeth nad oedd un bwrdd iechyd yn cyflawni holl ofynion y safonau mewn perthynas â gwasanaethau ffôn.

Yn dilyn ymchwiliad, gwnaethom ganfod bod atebwyr galwadau yn cyfarch galwyr yn uniaith Saesneg ac nad oeddent yn gallu parhau â'r sgwrs yn Gymraeg. Ymhellach, roedd rhannau awtomataidd o'r gwasanaeth ffôn ar gael yn Saesneg yn unig. Methodd y bwrdd iechyd hefyd â hyrwyddo ei wasanaethau ffôn Cymraeg – doedd dim gwybodaeth ar ei wefan yn nodi ei fod yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, bu'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i unioni'r sefyllfa. Roedd y camau hyn yn cynnwys sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am ymdrin â galwadau Cymraeg yn meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Ymhellach, roedd gofyn iddo ddiwygio ei wasanaethau ffôn awtomataidd i fod yn gwbl ddwyieithog a diweddaru ei wefan i hysbysu'r cyhoedd bod gwasanaethau Cymraeg ar gael ar ei switsfyrddau.

Mae tystiolaeth ragarweiniol gan y bwrdd iechyd yn dangos bod mesurau eisoes yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion cydymffurfio hyn. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys diweddaru systemau negeseuon ffôn i gynnwys opsiynau Cymraeg a darparu hyfforddiant i staff ar ddarparu gwasanaethau ffôn Cymraeg.

**3.20** Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld nifer o brosiectau yn cael eu cynnal mewn sefydliadau i drawsnewid perfformiad mewn gwasanaethau pwysig, gan gynnwys gwasanaethau ffôn a gwefannau. Mae'r trafodaethau mwyaf diweddar rydym wedi eu cael ag arweinwyr y sector wedi bod yn rhai cadarnhaol, ac mae hi'n galonogol gweld ymrwymiad a pharodrwydd ganddynt i fuddsoddi adnoddau ac amser i fynd i'r afael â'r sefyllfa a pharhau i wella cydymffurfiaeth.

**3.21** Fodd bynnag, os ydym am warantu profiad cyfrwng Cymraeg i ddefnyddwyr, a chynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur, mae angen i'r sector barhau i gymryd camau bwriadol a phenodol i gynyddu capasiti er mwyn creu gweithle sy'n fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr y Gymraeg.

**3.22** Blaenoriaeth arall i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer y flwyddyn i ddod yw sicrhau bod ganddynt gynlluniau gweithredol cyraeddadwy mewn perthynas â chynyddu eu gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. Byddwn yn gweithio yn agos â'r sector yn ystod y cyfnod nesaf i'w cefnogi â'r gwaith hollbwysig hwn.

**3.23** Disgwyliwn felly i'r sector adeiladu ar y momentwm y mae wedi llwyddo i'w greu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a sicrhau bod y cynnydd yn parhau i'r cyfnod nesaf.

## Rheoliadau Rhif 6 – Colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion

**3.24** Mae ein harolygon o wasanaethau ffôn colegau addysg bellach a phrifysgolion yn rhoi darlun cymysg o lefelau cydymffurfiaeth.

**3.25** Ymddengys bod ganddynt drefniadau mewn lle i alluogi defnyddwyr i gofnodi eu dewis iaith drwy systemau awtomataidd – systemau sydd wedi profi'n effeithiol ac wedi cyfrannu at gynnydd yn y nifer o alwadau y gellir delio â nhw yn Gymraeg (cynnydd o 29% yn 2021–22 i 44% yn 2023–24).

**3.26** Fodd bynnag, mae sefyllfaoedd yn codi, lle nad yw dymuniad y galwr i dderbyn gwasanaeth Cymraeg yn cael ei wireddu. Wedi dewis derbyn gwasanaeth Cymraeg, ni chafodd galwadau 45% o'r sampl eu hateb o gwbl, a chafodd 32% o alwadau eu hateb gan aelod o staff nad oedd yn medru'r Gymraeg.

**3.27** Unwaith eto, er bod sefydliadau'n gwneud defnydd o systemau i gofnodi dewis iaith, mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu bod diffyg capasiti rhai i gyfeirio galwyr at staff Cymraeg, a darparu gwasanaeth yn unol â'u dewis iaith, yn parhau. Afraid dweud nad yw lefelau cydymffurfiaeth o'r math hwn yn agos at roi sicrwydd o wasanaeth Cymraeg i ddefnyddwyr. Canlyniad tebygol hynny yw na welwn gynnydd yn nefnydd yr iaith yn y cyswllt hwn.

**3.28** O droi ein sylw at ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg yn y sector, rydym wedi gweld lefelau cydymffurfiaeth yn codi'n flynyddol ers arolygon 2021–22, â chynnydd o 66% i 86% erbyn 2023–24.

**3.29** Er bod y dogfennau hyn yn parhau i drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar adegau, mae'r arolygon yn dangos bod y sefyllfa yn gwella. Rydym wedi canfod bod gan golegau a phrifysgolion brosesau sicrhau ansawdd cadarnach mewn lle i wirio dogfennau cyn eu cyhoeddi.

**3.30** Mae nifer ohonynt hefyd wedi buddsoddi mewn gwefannau newydd. Mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnwys dogfennau – er enghraifft, mae ganddynt dudalennau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac mae modd defnyddio URL unigryw i gyfeirio defnyddwyr at y wybodaeth Gymraeg. Mae hyn yn cynnig profiad gwell i ddefnyddwyr gan eu bod yn medru cyrchu gwybodaeth Gymraeg yn llawer mwy hwylus.

**3.31** Y bobl ifanc sy'n caffael ac yn datblygu sgiliau Cymraeg heddiw fydd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y gymuned, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd eu hagweddau at y Gymraeg a'u harferion wrth ei defnyddio heddiw yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg yfory.

**3.32** Os ydym am weld cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol, eu gweld nhw'n cynnal eu sgiliau Cymraeg a throi'n ddefnyddwyr, mae angen mynd i'r afael â'r diffygion hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.


## Capasiti i ddarparu gwasanaethau – Pwysigrwydd prosesau recriwtio a datblygu sgiliau Cymraeg staff

**3.33** Rydym wedi datgan yn gyson bwysigrwydd allweddol buddsoddi mewn datblygu trefniadau cadarn i recriwtio ac asesu'r angen am sgiliau Cymraeg y gweithle er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.

**3.34** Yn syml, dim ond drwy gynyddu'r nifer o staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg y bydd modd i sefydliadau warantu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel i ddefnyddwyr.

**3.35** Mae'n galonogol nodi ein bod wedi gweld cynnydd pellach yn y flwyddyn ddiwethaf o ran nifer yr hysbysebion swyddi sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'r canrannau'n dangos ymrwymiad parhaus sefydliadau i wella eu harferion recriwtio, ac i ddenu ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg:

**Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg**[1]




**3.36** Comisiynwyd adroddiad gan IAITH i ddarparu gwerthusiad annibynnol o sut mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag a newydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig asesiad o sut mae'r asesiadau yma yn cyfrannu at lwyddiant sefydliadau wrth recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg.

**3.37** Mae canfyddiadau a phrif negeseuon y gwerthusiad annibynnol hwn i'w gweld ar ein gwefan.

1 Dim data ar gyfer 2020/21 oherwydd cyfnod y pandemig.

**3.38** Er bod hi'n rhy gynnar i ddweud â sicrwydd a yw sefydliadau wedi newid eu harferion yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, teg dweud bod sefydliadau wedi dangos parodrwydd cyson i drafod a newid arferion pan mae diffygion yn cael eu hamlygu drwy ein gwaith ymchwilio.

**3.39** Er enghraifft, mae sefydliadau a gymerodd ran yn yr adolygiad, a lle amlygwyd gwendidau yn eu trefniadau, wedi mynd ati i weithredu nifer o gamau, gan gynnwys:

- addasu polisïau
- defnyddio coeden neu siart llif penderfyniadau
- treialu trefn o anfon cwestiwn asesu i ymgeiswyr cyn mynychu cyfweliad er mwyn bod yn glir am sut y bydd sgiliau yn cael eu hasesu
- cynnal asesiadau o'r gwahanol sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swydd ar bob lefel, ac nid ar gyfer swyddi sy'n cael eu categoreiddio fel rhai Cymraeg hanfodol yn unig.

**3.40** Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o newid sydd wedi bod wrth i sefydliadau osod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi, ac a yw'r newid wedi arwain yn uniongyrchol at gynnydd yn nifer y staff â sgiliau Cymraeg sy'n cael eu recriwtio. Mae'r adborth anecdotaidd rydym yn ei dderbyn yn rhan o'n gwaith monitro yn awgrymu bod sefydliadau yn dal i wynebu heriau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg, er gwaetha'r dulliau mwy creadigol a ddefnyddiwyd yn rhan o'u prosesau recriwtio.


**3.41** Mae hefyd cryn dipyn o ddryswch ac anghysondeb yn parhau yn y modd y mae sefydliadau yn mynd ati i ddynodi'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar swyddi gwag wrth recriwtio.

**3.42** Mae'r safonau yn dynodi bod yn rhaid asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'u categoreiddio gan ddefnyddio'r categorïau isod ar gyfer swydd newydd neu swydd wag:

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

**3.43** Arolygwyd 593 o hysbysebion swyddi ar draws y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, gan gofnodi a oedd yr hysbyseb swydd yn defnyddio'r categorïau uchod, neu'n dynodi'n glir pa lefel sgiliau oedd yn angenrheidiol ar gyfer y swydd.

**Categoriau sgiliau iaith**




**3.44** Mae lefelau ymwybyddiaeth staff sy'n rhan o'r broses recriwtio o'r gofynion i bennu lefel sgiliau, a sut i wneud hynny, yn amrywio. Golyga hyn fod sefydliadau yn aml yn hepgor y categori sy'n ofynnol o dan y safonau wrth bennu'r lefel sgiliau angenrheidiol ar gyfer swydd.

**3.45** Gall sefyllfaoedd lle pennir cymysgedd o sgiliau a chategori iaith mewn hysbyseb swydd arwain at aneglurder a dryswch ar ran ymgeiswyr a'r cyhoedd yn ehangach. Yn ei dro, gall hynny arwain at gwynion, ac yn bwysicach, methu recriwtio unigolion â'r sgiliau y dymunir.

**3.46** Fel y mae'r siart uchod yn dangos, mae llawer gormod o amrywiaeth o ran y categorïau sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau – ac mae'r ganran uchaf o hysbysebion (36%) yn dynodi sgiliau mewn ffordd sy'n groes i ofynion y safonau.

**3.47** Yn rhan o'n rhaglen hybu cydymffurfiaeth ar gyfer 2024–25, byddwn yn cydweithio â'r holl sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio er mwyn sicrhau gwell cysondeb yn y modd y pennir sgiliau iaith Gymraeg. Byddem yn disgwyl gweld newidiadau yn cael eu gweithredu gan sefydliadau wedi hynny, a lefelau uwch o gysondeb a chydymffurfiaeth o ganlyniad.

## Cynlluniau iaith Gymraeg

**3.48** Yn ogystal â gwirio cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, rydym hefyd yn cynnal arolygon ac yn gwirio gwasanaethau â ddarperir gan sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

**3.49** Dylid nodi, bod yr hyn sy'n ddisgwyliedig i gyrff ei ddarparu yn Gymraeg yn amrywio o un sefydliad i'r llall, a hynny'n ddibynnol ar yr ymrwymiadau y cytunwyd arnynt wrth lunio cynllun iaith.

**3.50** Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau arolygon gwirio'r Comisiynydd dros y tair blynedd ddiwethaf, ac yn cynnig darlun o brofiad defnyddwyr gwasanaeth wrth iddynt geisio derbyn gwasanaethau yn Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau.

| Arolwg[2] | Canlyniad 2021/22 | Canlyniad 2022/23 | Canlyniad 2023/24 | Newid |
|---|---|---|---|---|
| **Ffôn** | 47% | 42% | 38% | Dirywiad cyson |
| **Gohebiaeth** | 62% | 60% | 58% | Dirywiad cyson |
| **Cyfryngau cymdeithasol** | 30% | 23% | 20% | Dirywiad cyson |
| **Gweffennau** | 52% | 37% | 54% | Gwelliant |
| **Swyddi** | 5% | 0% | 20% | Gwelliant |
| **Dogfennau** | 44% | 53% | 61% | Gwelliant cyson |
| **Ffurflenni** | 58% | 54% | 65% | Gwelliant |
| **Hunaniaeth gorfforaethol** | 59% | 37% | 64% | Gwelliant |

**3.51** Gwelwyd cynnydd yn lefel perfformiad sefydliadau wrth ddarparu'r gwasanaethau canlynol, â'r cynnydd mwyaf i'w weld yn hunaniaeth gorfforaethol a gwefannau'r sefydliadau:

- Gwefannau
- Hysbysebu swyddi
- Dogfennau
- Ffurflenni
- Hunaniaeth gorfforaethol.

**3.52** Gwelwyd datblygiadau cadarnhaol yn parhau o safbwynt gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ar wefan gov.uk. Eleni, gwelwyd bod mwy o adrannau llywodraeth y DU â rheolaeth o'u cynnwys Cymraeg ar y wefan. Mae hynny wedi arwain at gynnydd a gwelliant parhaus o ran cynnwys a gwasanaethau ar-lein Cymraeg.

2 Canran y sampl sy'n cydymffurfio â'r gofynion.

### Arfer effeithiol

Yn dilyn ymchwiliad ac ymateb i argymhellion y Comisiynydd, mae Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi gwneud llawer o waith ymgysylltu â'u defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg wrth ddatblygu gwasanaeth digidol newydd sy'n galluogi unigolion i wneud cais am Atwrneiaeth Arhosol ar-lein. Maent wedi cynnal gweithdai gyda defnyddwyr gwasanaeth i beilota'r gwasanaeth digidol newydd a gwirio cywirdeb a safon y gwasanaeth Cymraeg cyn ei fod yn cael ei lansio.

**3.53** Fodd bynnag, mae ein harolygon gwirio yn dangos bod lefel perfformiad sefydliadau cynlluniau iaith wedi dirywio'n raddol yn y meysydd canlynol:

- Ffôn
- Gohebiaeth
- Cyfryngau cymdeithasol.

**3.54** O ystyried bod aelodau'r cyhoedd yn fwy tebygol o gysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau drwy ohebiaeth, galwad ffôn, ac, yn gynyddol, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, mae hyn yn destun pryder.

**3.55** Teg dweud felly bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg yn parhau yn anghyson.

**3.56** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau dilynol wedi bod yn gam enfawr ymlaen o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'i chynlluniau iaith. Mae'r safonau wedi darparu lefel o sicrwydd i sefydliadau a defnyddwyr fel ei gilydd gan greu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd yng Nghymru. Ac mae gan y Comisiynydd bwerau gorfodi eang i atgyfnerthu'r drefn.

**3.57** Er bod cynnydd a gwaith da yn digwydd mewn mannau, mae'n amlwg o'n canfyddiadau eleni fod peidio gallu gorfodi ymrwymiadau cynlluniau iaith fel sy'n bosibl yng nghyd-destun y safonau yn golygu bod rhai gwasanaethau allweddol yn parhau yn wan.

**3.58** Ni allwn ddisgwyl gweld yr un newid mewn gwasanaethau Cymraeg a welwyd mewn sectorau eraill yn sgil dyfodiad y safonau heb ddod â'r sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith ar hyn o bryd o dan y gyfundrefn honno hefyd.

## Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt

**3.59** Mae hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn un o amcanion safonau'r Gymraeg, ac mae'r safonau yn gosod dyletswydd ar sefydliad i hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. Mae hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg yn golygu ymdrech gan sefydliadau i gynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg.

**3.60** Mae egwyddorion newid ymddygiad yn ganolog i nifer o'r safonau sy'n pwysleisio'r cynnig rhagweithiol. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd i sefydliadau hybu defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft drwy osod y Gymraeg yn ddiofyn ar beiriannau hunanwasanaeth neu gyfrifiaduron staff, neu osod y Gymraeg o flaen y Saesneg mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Mae'r egwyddorion pwysig yma yn cyfrannu at sicrhau fod y Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei chynnig yn hwylus i ddefnyddwyr y Gymraeg.

**3.61** Mae'n hollbwysig felly bod defnyddwyr yn gwybod am wasanaethau Cymraeg a bod sefydliadau'n hybu a hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael yn greadigol er mwyn newid arferion defnyddio gwasanaethau.


### Arfer effeithiol

Mewn ymateb i gamau gorfodi a osodwyd yn sgil ymchwiliad i dudalennau Facebook awdurdod leol, dyluniodd a gweithredodd yr awdurdod brosiect o'r enw 'Ymwybyddiaeth y Cyfrif Facebook Gymraeg'. Yn rhan o'r prosiect hwn, defnyddiwyd nifer o ddulliau ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth fewnol ac allanol o'r dudalen Gymraeg, a gwelwyd cynnydd o 80.6% yn nilynwyr newydd y dudalen o fewn chwe mis.

**3.62** Mae bob sefydliad bellach yn sicrhau ei bod yn glir bod tudalen we gyfatebol ar gael i bob tudalen Saesneg drwy ddefnyddio botwm togl 'Cymraeg/Saesneg', gan alluogi defnyddwyr i symud yn hwylus i'r Gymraeg pan maent yn dymuno.

**3.63** Fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn yr adroddiad sicrwydd diwethaf – Codi'r Bar – mae cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau 'hybu' gwasanaethau cysylltiedig, megis cynnwys datganiad ar ddogfen bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg, yn isel. Mae'r safonau hyn yn adeiladu ar egwyddorion neu ymarferiadau newid ymddygiad ac maent wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau er mwyn newid arferion defnyddwyr y Gymraeg sydd wedi arfer peidio â gweld gwasanaethau Cymraeg o safon ar gael.

### Safonau hybu gwasanaethau




**3.64** Gan ystyried natur syml a lled ddidrafferth y gofynion hyn, mae'n siom ac yn destun pryder gweld lefelau cydymffurfiaeth yn parhau'n gymharol isel eto eleni. Disgwylir i sefydliadau fynd ati i gymryd camau pwrpasol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Arolwg Siaradwyr Cymraeg: Tachwedd 2023

**3.65** Rydym yn comisiynu arolwg blynyddol o farn siaradwyr Cymraeg o wasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus a'u barn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd 408 o ymatebwyr dros 16 oed o bob awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o'r sampl, â thrawstoriad mewn oed, dosbarth cymdeithasol a lleoliad daearyddol.

**3.66** Wrth drafod pa iaith y mae'n well gan ymatebwyr ei defnyddio â chyrff cyhoeddus nododd 17% o'r sampl Cymraeg, 54% Saesneg, a 29% eu bod yn amrywio eu dewis. Fodd bynnag, o'r rheini sy'n adnabod eu hunain yn siaradwyr rhugl, mae 33% yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg.

**3.67** Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis iaith defnyddwyr yn cynnwys:

- pwnc neu ddefnydd o eirfa dechnegol (37%)
- hyder personol a theimlo'n gyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg (16%)
- argaeledd siaradwr Cymraeg (11%)
- y person arall yn siarad Cymraeg cyntaf (7%).

**3.68** Mae'r canrannau isod yn nodi pa iaith sydd yn well gan ymatebwyr ei defnyddio mewn perthynas â rhai gwasanaethau penodol.

| | Cymraeg bob tro | Cymraeg gan amlaf | Cymraeg a Saesneg yn hafal | Saesneg gan amlaf | Saesneg bob tro |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffôn** | 7% | 11% | 18% | 29% | 35% |
| **Wyneb yn wyneb** | 9% | 14% | 24% | 29% | 23% |
| **Ysgrifenedig** | 6% | 4% | 14% | 36% | 41% |
| **Darllen gwybodaeth** | 6% | 6% | 22% | 34% | 32% |
| **Cyfryngau cymdeithasol** | 5% | 5% | 17% | 34% | 36% |

**3.69** Fel y mae'r tabl uchod yn dangos yn glir, mae'n well gan bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer 31% o ymatebwyr dros 55 lle roedd yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg bob tro neu gan amlaf. Roedd yn well gan 46% o ymatebwyr rhugl defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb bob tro neu gan amlaf.

**3.70** Mae'n gadarnhaol nodi fod 79% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod fel arfer yn gallu delio â sefydliadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny (sy'n codi i 86% o'r ymatebwyr rhugl).

**3.71** Mae 74% hefyd yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella, a 75% yn cytuno bod sefydliadau cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith yr hoffent ddelio â nhw.

**3.72** Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau yn ei gwneud yn glir eu bod ar gael, â'r ganran yn cynyddu i 85% ar gyfer ymatebwyr rhugl.

3.73 Fodd bynnag, dim ond 67% oedd yn cytuno fod gwasanaethau Cymraeg yr un mor dda â gwasanaethau Saesneg. Yr un oedd y ganran a nododd eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg y mae hawl ganddynt dderbyn. Golyga hynny felly fod bron i draean o'r ymatebwyr yn aneglur ac yn ansicr o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.

3.74 Mae'r uchod yn profi bod angen i sefydliadau barhau i wneud llawer mwy i amlygu gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, a'u gwneud yn hawdd i'w defnyddio os ydym am gyflawni'r deilliant hollbwysig hwn.

3.75 Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd y gwaith rydym yn ei gynnal eleni ag amryw o sefydliadau cyhoeddus o sectorau gwahanol i fabwysiadu cynllun gweithredu hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Bwriad y gwaith hwn yw i annog sefydliadau i gynllunio a hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn well, â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny.

3.76 Bydd disgwyl i'r sefydliadau dan sylw fynd ati i baratoi cynllun hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dau wasanaeth penodol gan ddefnyddio'r theorïau a'r methodolegau y soniwyd amdanynt yn y seminarau a gynhaliwyd ar y cyd â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (gweler isod).

3.77 Bydd gofyn i'r sefydliadau hefyd gasglu data ar ddefnydd y gwasanaethau fydd yn cael eu hyrwyddo, â'r bwriad o ddadansoddi'r data hwnnw ar ddiwedd cyfnod y prosiect i fesur effaith yr ymgyrchoedd hyrwyddo.

3.78 Yn dilyn cynnal dadansoddiad llawn o'r prosiect, byddwn yn rhannu ein canfyddiadau ac enghreifftiau o arferion effeithiol er mwyn annog pob corff cyhoeddus i roi mesurau tebyg mewn lle i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn well ac annog y defnydd ohonynt.

## Iaith ar Daith

3.79 Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i gynnal pedwar seminar ymarferol yn edrych ar ddulliau arloesol o ddylunio a hyrwyddo cynnwys dwyieithog yn well er mwyn annog y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

3.80 Roedd y seminarau yn gyfle i drafod a deall mwy am theorïau a methodoleg i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn well. Un fethodoleg a drafodwyd mewn manylder oedd Ysgrifennu Triawd – dull o gydweithio i ddatblygu cynnwys mewn dwy iaith yr adnabuwyd fel arfer effeithiol yn ein hadroddiad sicrwydd y llynedd. Ceir rhagor o wybodaeth am Ysgrifennu Triawd yma: Sut i ysgrifennu triawd | Centre for Digital Public Services (llyw.cymru).

3.81 Cofrestrodd 243 o bobl i'r seminarau yma a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.

### Adborth o'r seminarau

"Already attending this session has been a huge help for me. I'm not a Welsh speaker or Welsh but I'm the content designer on a project for Wales. I've tried really hard to adapt how I work to bring Welsh in sooner but I'd not considered how important it was to actually PROMOTE our Welsh service too. I'll definitely be taking that back to my team for us to think about".

"Diolch enfawr i Comisiynydd y Gymraeg am eu sesiwn heddiw am hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud gwybodaeth amdanynt yn glir a dealladwy i ddefnyddwyr gwasanaeth. Trafodaeth graff iawn a allai sbarduno syniadau i ni fel swyddfa! #yriaithardaith".

## Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

**3.82** Mae'r safonau llunio polisi yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi, a bod unrhyw effeithiau posibl ar yr iaith yn cael eu hadnabod. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut gellid llunio'r polisi er mwyn iddo gael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg, yn ogystal â sut i sicrhau effeithiau llai negyddol. Mae'n hanfodol bod gan sefydliadau ddull effeithiol o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg sy'n cwmpasu ystyriaethau cyfreithiol, anghenion siaradwyr Cymraeg, strategaethau cenedlaethol a lleol, a meysydd polisi penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

**3.83** Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sefydliadau i ystyried eu trefniadau cydymffurfio â'r safonau llunio polisi.

**3.84** Rydym wedi tynnu sylw sefydliadau yn benodol at ddyfarniad pwysig Tribiwnlys y Gymraeg yn y maes sy'n rhoi arweiniad clir ar yr ystyriaethau angenrheidiol wrth wneud penderfyniadau polisi – gan gynnwys rhoi ystyriaeth gydwybodol i effaith penderfyniadau ar y Gymraeg.

**3.85** Rydym hefyd wedi cyhoeddi adnoddau i gefnogi sefydliadau ymhellach â'r gwaith allweddol hwn ar ein tudalennau gwe ar y safonau llunio polisi. Mae'r adnoddau'n cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredinol, rhestr o ffactorau i'w hystyried, yn ogystal ag astudiaeth achos mewn perthynas â dogfen ymgynghori awdurdod lleol yn y maes addysg.

**3.86** Mae rhai sefydliadau, un ai o'u gwirfodd, neu mewn ymateb i ymchwiliad gennym yn sgil cwynion, wedi rhoi trefniadau newydd ar waith ac mae'n galonogol nodi bod arferion da yn dechrau datblygu.

### Arfer effeithiol

Agorwyd ymchwiliad yn sgil derbyn cwyn am ddogfen ymgynghori ar gyllideb awdurdod Lleol ar gyfer 2023–24. Roedd yr ymchwiliad yn ystyried a oedd y sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi gan ystyried a cheisio barn ar yr effeithiau posibl ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio. Dyfarnwyd bod methiant i gydymffurfio â'r tair safon gan nad oedd ystyriaeth i effeithiau'r polisi ar y Gymraeg o fewn y ddogfen, na chwestiynau yn cael eu gofyn am yr effeithiau posibl ar y Gymraeg.

Yn dilyn yr ymchwiliad gosodwyd camau gorfodi yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r sefydliad gynnal adolygiad o'i broses llunio dogfennau ymgynghori; creu canllaw sy'n egluro gofynion y safonau perthnasol; a darparu hyfforddiant i staff perthnasol ar y safonau dan sylw.

Derbyniom ymateb cadarnhaol iawn at y camau gorfodi, â'r sefydliad yn datgan ei fod wedi rhoi dull newydd ar waith er mwyn cryfhau'r broses datblygu polisi ac ymgynghori. Mae grŵp wedi ei sefydlu sy'n edrych ar bapurau'r Cabinet er mwyn nodi'r rhai sydd angen asesiadau effaith ieithyddol. Sgriniwyd y gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2024–25 er mwyn gweld pa gynigion fyddai angen asesiad effaith llawn. Yn ogystal â hyn, ychwanegwyd cwestiynau penodol am effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi sefydlu cyfeiriad e-bost mewnol newydd yn benodol ar gyfer materion polisi Cymraeg, sy'n cael ei hyrwyddo fel y lle i fynd er mwyn cael cymorth ac arweiniad.

Mae nodyn cyngor mewnol wedi ei baratoi sy'n egluro gofynion y safonau perthnasol, ac mae polisi newydd hefyd ar lunio polisi yn egluro gofynion y safonau yn llawn. Pan fydd asesiadau effaith drafft yn dod at sylw'r adran Gymraeg y sefydliad, bydd yr adran yn cynnig sesiwn briffio i'r adran hynny wrth wneud sylwadau ar yr asesiad effaith.

Mae'r sefydliad yn cydnabod bod y gofyniad am 'ystyriaeth gydwybodol' yn golygu bod angen cynnal yr asesiad effaith yn gynt yn y broses o lunio polisi er mwyn rhoi digon o wybodaeth i ymgynghorai allu ymateb yn llawn. Mae eu polisi yn nodi bod rhaid cwblhau asesiadau'r Gymraeg cyn ymgynghoriad cyhoeddus, a nodi'r effeithiau a'r camau hyrwyddo/lliniaru yn y ddogfen ymgynghori.

**3.87** Er hynny, rydym yn parhau i dderbyn lefel uwch o gwynion ac ymholiadau am benderfyniadau polisi sy'n cael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus nag a gafwyd yn hanesyddol, â'r mwyafrif helaeth yn ymwneud â phenderfyniadau ad-drefnu addysg a mynediad at addysg Gymraeg.

**3.88** Yr hyn sy'n gyson yn ein canfyddiadau wrth ymchwilio i gwynion ynghylch penderfyniadau polisi yw nad yw'r gweithdrefnau a'r trefniadau y mae sefydliadau wedi eu rhoi mewn lle yn cael eu dilyn. Mae hynny oherwydd fod ansicrwydd yn parhau ynghylch pryd mae'r safonau'n gymwys, â sefydliadau'n aml yn ansicr a yw penderfyniad yn benderfyniad polisi yntau'n benderfyniad gweithredol.

**3.89** Yn yr achosion lle mae gweithdrefnau'n cael eu dilyn, pur anaml y byddwn yn canfod fod sefydliad wedi ystyried y ffactorau perthnasol amlwg i gyd. Hyd yn oed os yw'r ffactorau hynny wedi eu hystyried, yn amlach na pheidio, nid yw'r ystyriaeth a roddwyd yn ddigon manwl a threiddgar i alluogi'r sefydliad i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch yr effaith gwirioneddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**3.90** Mae gwaith pellach i'w wneud felly i godi ymwybyddiaeth sefydliadau o ofynion y safonau llunio polisi, a'r hyn sy'n rhaid gwneud i gydymffurfio â nhw.

## Llinell Ymholi Allweddol

**3.91** Er mwyn cael gwell sicrwydd fod sefydliadau'n arddangos ymdrech gydwybodol wrth ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, rydym yn cynnal llinell ymholi[3] allweddol i'r maes hwn yn ystod 2024. Bwriad y llinell ymholi hwn yw ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r trefniadau sydd gan sefydliadau ar waith, ac a yw'r trefniadau hynny'n ddigonol.

**3.92** Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ein helpu i ddeall y materion isod yn well, ac i benderfynu pa gymorth pellach sydd ei angen ar sefydliadau.

**3.93** Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ac yn rhannu arferion effeithiol a welir maes o law. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau i drafod y canfyddiadau ac i ledaenu'r arferion effeithiol hynny.

3 'Llinell ymholi' yw ymholiad dwys sy'n gofyn i sefydliadau ddarparu tystiolaeth manwl ar eu trefniadau cydymffurfio mewn perthynas â materion strategol neu risg uchel.

## Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd

**3.94** Mae'n hollbwysig os ydym am gyrraedd ein nod o alluogi pobl i fyw eu bywydau yn y Gymraeg, bod mwy o weithleoedd yng Nghymru yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn eu gweinyddiaeth bob dydd. Mae hefyd angen sicrhau bod pob man gwaith yn cefnogi ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**3.95** Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn sôn am y gweithle fel gofod allweddol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedir bod y 'gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ac yn bwysig o ran datblygiad ieithyddol unigolion', gan ei fod yn gyfle i siaradwyr ar bob lefel ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Noda'r strategaeth fod 'rhai cyrff eisoes yn arwain y ffordd yn hyn o beth ac yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gweinyddu fewnol, gan gynyddu'r galw am sgiliau Cymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio'.[4]

**3.96** Rydym ni fel Comisiynydd y Gymraeg eisiau gweld:

- mwy o sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gweithredu fewnol, a chynnal y sefyllfa honno lle mae eisoes yn weithredol
- pob sefydliad sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, ac yn galluogi staff i fyw bywyd gwaith cyflawn drwy'r Gymraeg.

### Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

**3.97** Mae'r safonau gweithredu yn gosod hinsawdd ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ac mae sefydliadau'n adrodd eu bod yn cydymffurfio'n uchel drwy gynnig rhyngwynebau cyfrifiadur, polisïau a chontractau yn Gymraeg ac mae canran uchel yn darparu mewnrwyd yn Gymraeg.

**3.98** Yn ogystal â dyletswyddau, mae gan sefydliadau hefyd gyfle i feithrin sgiliau eu gweithlu yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae sefydliadau megis Coleg y Cymoedd yn hyrwyddo'r sgiliau Cymraeg sydd gan staff drwy greu cynllun mentora. Mae modd darllen mwy am y prosiect mentora a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

4 Tudalen 49: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru).

3.99 Mae pob corff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn ddarostyngedig i'r safon:

> Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, â'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.

3.100 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi sefydlu prosiect â phartneriaid strategol i ystyried sut gall sefydliadau gryfhau eu polisïau ar ddefnydd mewnol er mwyn cynyddu lefelau defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

3.101 Hyd yma, mae'r gwaith prosiect wedi bod yn gweithio ar lefel strategol i gydlynu ag aelodau'r grŵp llywio a thrafod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n y maes hwn.

3.102 Mae tri chyfarfod o'r grŵp wedi eu cynnal a chafwyd trafodaeth am yr heriau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyrff i ddatblygu polisi all arwain at newid. Mae'r cyfarfodydd yma hefyd wedi cynnig cyfle i drafod sut, yn ymarferol, mae modd newid ymddygiad a chynyddu cyfleoedd gwirioneddol i bobl defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

3.103 Mae ymgynnull fel grŵp llywio hefyd wedi galluogi sefydliadau i gael cymorth ac adnoddau o brosiectau'r amryw bartneriaid ac i ganolbwyntio eu hymdrechion ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg oddi fewn i'w sefydliadau.

3.104 Mae tri sefydliad cyhoeddus wedi ymrwymo i lunio polisïau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg wrth weinyddu. I gefnogi'r ymrwymiad hwn byddwn yn cydweithio â'r partneriaid i ddatblygu modelau ar gyfer polisïau posibl. Bydd y modelau yn dwyn ynghyd brofiad ac arferion llwyddiannus gan ystyried sut orau i greu seilwaith polisi all gael ei ailadrodd gan eraill.

3.105 Yn ogystal â'r gwaith dwys ar greu seilwaith polisi, byddwn yn datblygu adnoddau mewn meysydd penodol i gefnogi pob corff i wella a chryfhau eu polisïau gan rannu profiadau ac arferion da ar ein tudalennau gwe ar gyfer y prosiect hwn.

3.106 Bydd adnoddau yn edrych ar ddatblygiadau posibl i bolisïau yn y meysydd technoleg, arweinyddiaeth, hyfforddiant a datblygu sgiliau, a newid ymddygiad. Bydd hynny'n rhoi cyfleoedd ymarferol i bob sefydliad gynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan staff yn eu gwaith bob dydd a gyda'i gilydd.

## Adolygiad o bolisïau

**3.107** Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad o sampl o bolisïau sefydliadau ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg (14) i adnabod cryfderau ynghyd ag agweddau y gellid eu gwella a'u datblygu ymhellach.

**3.108** Yn gyffredinol, roedd y polisïau yn gosod allan eu hymrwymiad cyffredinol i hwyluso gallu eu staff i ddefnyddio'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol o dan y safonau gweithredu, er enghraifft, drwy gynnig seilwaith cyfrifiadurol neu ddogfennau cyflogaeth yn Gymraeg.

**3.109** Fodd bynnag, gwelir diffyg gweledigaeth yn mwyafrif y sampl (85%) ar sut y bwriedir i'r polisïau hyn arwain at gynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd dros gyfnod hwy.

**3.110** Yn amlach na pheidio, dogfen sy'n amlinellu gofynion y safonau a rôl staff i'w gweithredu yn unig yw'r polisïau hyn. Nid ydynt yn egluro pa gamau maent am roi ar waith, nac ychwaith yn pennu targedau mesuradwy i gynyddu defnydd o'r Gymraeg dros amser.

**3.111** Mae hefyd rhai enghreifftiau lle mae cynnwys ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg wedi ei ymgorffori mewn polisi neu strategaeth ehangach sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Golyga hyn fod yr ymdriniaeth â'r maes penodol hwn yn aml yn gyfyngedig iawn.

**3.112** Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, dylai sefydliadau ystyried y graddau y mae eu polisïau ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn cyflawni'r isod, a chymryd camau gweithredu cadarnhaol lle bo angen gwneud hynny:

- gosod gweledigaeth uchelgeisiol, hir dymor
- sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- polisi cynhwysol sy'n cynnwys camau i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymysg pob aelod o staff e.e. drwy gynnig cyfleoedd i bawb ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
- cefnogi defnydd o'r Gymraeg drwy beidio â rhoi baich ychwanegol ar ddefnyddwyr – er enghraifft, drwy ragosod y Gymraeg yn hytrach nag opsiynau 'optio i mewn'
- cynnwys amserlen bendant ar gyfer cyflawni pob amcan
- nodi'n glir pwy sydd â chyfrifoldeb dros weithrediad y polisi a sicrhau adolygiad cyson o berfformiad.

## Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd

### Strategaethau Hybu

**3.113** Mae safonau 145 a 146 o Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn safonau hybu. Ystyr 'safon hybu' yw safon sy'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd y bwriedir iddo hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

**3.114** Er mwyn gweithredu safon 145 mae'n ofynnol i gynghorau sir a pharciau cenedlaethol baratoi strategaeth 5-mlynedd sy'n esbonio sut maent yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd ohoni yn eu hardal.

**3.115** Rhaid i bob cyngor sir ac awdurdod parc cenedlaethol gynnwys yn eu strategaethau hybu, ymhlith pethau eraill:

- targed (yn nhermau canran y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
- datganiad sy'n esbonio sut maent yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

**3.116** Yn ogystal, rhaid iddynt adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn diwygiedig ar eu gwefan o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn diwygiedig ohoni).

**3.117** Comisiynwyd astudiaeth yn 2023–24 i werthuso'r graddau y mae awdurdodau lleol ac awdurdod parciau cenedlaethol Cymru wedi asesu'n ddigonol gyrhaeddiad eu strategaethau 5-mlynedd, a pharatoi strategaethau newydd, yn unol â'r cyngor y cyhoeddodd y Comisiynydd yn 2021.

**3.118** Yn ogystal â dod i farn ar gydymffurfiaeth â'r safonau, roedd yr astudiaeth yn ceisio adnabod arferion da a gwendidau cyffredin wrth ddefnyddio data mewn perthynas ag asesu cyrhaeddiad a pharatoi strategaethau 5-mlynedd diwygiedig a'u rhoi ar waith. Roedd hefyd yn cyflwyno argymhellion ynghylch sut y gallai sefydliadau gryfhau a gwella eu trefniadau gwerthuso a pharatoi strategaethau 5-mlynedd at y dyfodol.

**3.119** Gwahoddwyd 25 sefydliad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon sef y 22 awdurdod lleol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r safonau hybu (145 a 146).

**3.120** Cyfrannodd cynrychiolwyr 23 sefydliad at yr astudiaeth. Cwblhaodd 22 ohonynt yr arolwg a chynhaliwyd cyfweliadau dilynol â chynrychiolwyr 21 sefydliad.

**3.121** Yn ôl data'r arolwg mae'r mwyafrif helaeth o'r sefydliadau a gymerodd rhan (19) wedi cwblhau cyfnod eu strategaeth gyntaf, ac wedi symud ymlaen at eu strategaeth ddiwygiedig. O'r 19 sefydliad sydd bellach yn gweithredu'u strategaeth ddiwygiedig, bydd rhai o'r sefydliadau (3) yn gorffen eu gweithredu mor fuan â 2026. Er ei fod yn ofynnol i sefydliadau gynnal strategaethau pum mlynedd o hyd, mae un sefydliad wedi penderfynu cynnal strategaeth ddilynol a fydd yn para deng mlynedd. Bydd cyfnod y strategaeth hon yn dod i ben yn 2033.

**3.122** Mae'n ofynnol i gynghorau sir a pharciau cenedlaethol gynnwys targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd dan sylw. Yn ôl atebion yr arolwg, roedd 20 o'r 22 sefydliad wedi cynnwys targed o'r fath ond roedd dau sefydliad wedi methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**3.123** Mae'n ofynnol hefyd i gynghorau sir a pharciau cenedlaethol gynnwys datganiad yn y strategaeth 5-mlynedd sy'n esbonio sut maent yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw. Roedd 19 o'r 22 sefydliad a gwblhaodd yr arolwg wedi cadarnhau eu bod wedi cynnwys datganiad o'r fath yn y strategaeth 5-mlynedd. Roedd tri sefydliad wedi methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**3.124** Er mwyn gweithredu safon 145, mae'n ofynnol i gynghorau sir a pharciau cenedlaethol gynnwys targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal y nifer erbyn diwedd y pum mlynedd dan sylw. Yn ôl atebion yr arolwg, roedd 20 o'r 22 sefydliad wedi cynnwys targed o'r fath ond roedd dau sefydliad wedi methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**3.125** Mae safon 145 hefyd yn gosod rheidrwydd ar gynghorau sir a pharciau cenedlaethol i gynnwys datganiad yn y strategaeth 5-mlynedd sy'n esbonio sut maent yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw. Roedd 19 o'r 22 sefydliad a gwblhaodd yr arolwg wedi cadarnhau eu bod wedi cynnwys datganiad o'r fath yn eu strategaeth 5-mlynedd. Roedd tri sefydliad wedi methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**3.126** Yn ôl ymatebion yr arolwg, roedd 20 sefydliad wedi cynnwys gwybodaeth am nifer ac oedrannau'r siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd yn yr asesiad o weithrediad a chyrhaeddiad y strategaeth hybu. Roedd dau sefydliad heb gydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**3.127** Dim ond 15 sefydliad oedd wedi rhestru'r gweithgareddau a drefnwyd neu ariannwyd ganddynt i hybu defnyddio'r Gymraeg yn yr asesiad. Roedd saith sefydliad heb gydymffurfio â gofynion safon 146.

**3.128** Yn yr arolwg, adroddodd mwyafrif o'r sefydliadau eu bod wedi cymryd camau i sicrhau fod eu strategaethau diwygiedig â chyswllt amlwg â pholisïau iaith lleol a chenedlaethol (20); wedi cydweithio ag ystod eang o randdeiliaid (18); wedi llunio proffil cyfredol o'r ardal leol (17) ac wedi sefydlu gwaelodlin ar gyfer gweithredu pellach (17). Roedd 16 sefydliad wedi llunio strategaeth ddiwygiedig â mewnbwn partneriaid a rhanddeiliaid, creu cynllun gweithredu blynyddol, a chreu cynllun i fonitro gweithrediad y strategaeth.

**3.129** Mae dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg yn cyfeirio at nifer o ddulliau casglu a chyflwyno data ansoddol sy'n cynnwys arolygon barn, grwpiau ffocws, profiadau unigolion ayb. Dengys yr arolwg nad oedd sefydliadau wedi gwneud cymaint o ddefnydd o ddulliau casglu a chyflwyno data ansoddol wrth asesu cyrhaeddiad eu strategaethau 5-mlynedd.

**3.130** Adroddodd y mwyafrif o'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg (17) eu bod wedi addasu eu trefniadau ar gyfer gweithredu'r strategaeth ddiwygiedig. Roedd pum sefydliad heb newid eu trefniadau gweithredu.

**3.131** Nododd y sefydliadau a oedd wedi addasu eu trefniadau gweithredu'r strategaeth ddiwygiedig nifer o resymau dros y newidiadau a wnaed, yn bennaf oherwydd eu bod am wella'r sail dystiolaeth ar gyfer adnabod gwaelodlin, gosod targedau a monitro cynnydd, newid/cryfhau'r trefniadau monitro, a chryfhau'r cyswllt rhwng amcanion y strategaeth 5-mlynedd a strategaethau eraill y sefydliad (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cymraeg 2050, trefniadau monitro cynllunio busnes corfforaethol).

**3.132** I grynhoi felly, mae'n ymddangos bod gan bob cyngor sir ac awdurdod parc cenedlaethol strategaeth sy'n mynd i'r afael â hyrwyddo, diogelu a meithrin y Gymraeg yn eu hardaloedd. Mae mwyafrif helaeth y sefydliadau'n cynnwys y wybodaeth sylfaenol y gofynnir amdani yn safon 145 gan gydymffurfio felly â'r gofynion statudol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder fod nifer bychan o sefydliadau yn parhau i fethu gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg, ac eraill wedi methu gwneud datganiad ynghylch sut y byddant yn cyrraedd y targedau sydd wedi eu gosod. Mae'n bryder hefyd fod 10 o'r 25 sefydliad wedi methu cydymffurfio â safon 146 gan nad ydynt wedi cyhoeddi rhestr o'r gweithgareddau y maent wedi eu trefnu er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

**3.133** Byddwn yn cysylltu gyda'r sefydliadau hynny nad yw eu strategaethau'n cydymffurfio â gofynion y safonau er mwyn trafod y camau sydd angen eu cymryd er mwyn unioni'r sefyllfa. Byddwn yn ystyried yn benodol yr angen i'r strategaethau gynnwys:

- targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg, a datganiad ar sut y byddant yn cyrraedd y targed hwnnw
- nifer y siaradwyr Cymraeg sydd o fewn i'w hardaloedd ac oedrannau'r siaradwyr hynny

- rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu ariannwyd gan yr awdurdod.

**3.134** Mae'r Comisiynydd am weld y strategaethau hybu hyn nid yn unig yn cydymffurfio â gofynion sylfaenol y safonau, ond yn cyrraedd eu llawn botensial o ran eu cyfraniad at y nod cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

**3.135** Wrth droi ein golygon at fersiynau nesaf y strategaethau hybu, ac yn unol â'n hymrwymiad i gydweithio'n gynyddol â sefydliadau i sicrhau gwelliant, bwriad y Comisiynydd yw cymryd rôl mwy rhagweithiol wrth roi cyngor ac arweiniad i'r sefydliadau perthnasol.

## Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo

**3.136** Rydym yn disgwyl i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel gan sefydliadau ac i bethau gael eu cywiro pan fyddant yn mynd o chwith. Pan fo pethau'n mynd o chwith, dylai fod gan ddefnyddwyr y Gymraeg fynediad i weithdrefnau cwynion tryloyw ac effeithiol.

**3.137** Mae disgwyl i sefydliadau gael gweithdrefn gwyno sy'n amlinellu sut y maent yn bwriadu ymdrin â chwynion a dderbynnir ynglŷn â'u cydymffurfiaeth, a chyhoeddi'r weithdrefn honno ar ei gwefan. Yn yr un modd, caiff defnyddwyr y Gymraeg gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i ni.

**3.138** Yn ein hadroddiad sicrwydd y Gymraeg fel ffordd o weithio 2021-22, rhoddwyd sylw i'r ffaith nad oedd bob sefydliad yn cwrdd â'r ddyletswydd hon a bu rhoi her i sefydliadau gyhoeddi gweithdrefn gwyno gan nad oedd yn amlwg i ddefnyddwyr sut gallent gwyno yn uniongyrchol i sefydliadau.

**3.139** Tra bod ymateb sefydliadau i'r her hwnnw wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, â nifer helaeth o sefydliadau bellach wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno sy'n cydymffurfio, dim ond 48% o'r ymatebwyr yn ein harolwg siaradwyr Cymraeg oedd yn cytuno bod sefydliadau yn eu gwneud yn glir sut oedd modd cwyno am wasanaethau Cymraeg.

**3.140** Mewn arolwg ymwybyddiaeth cenedlaethol a gyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rai blynyddoedd yn ôl[5], canfuwyd bod siaradwyr Cymraeg yn ymddangos yn fwy anfodlon ar gyfartaledd â chanlyniad eu cwynion at ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn debygol o fod wedi cael effaith negyddol ar eu hyder yng ngallu'r sefydliadau i newid arferion ac wedi golygu ein bod ninnau fel rheoleiddiwr wedi gorfod ymyrryd yn gynyddol yn y blynyddoedd diwethaf.

**3.141** Mae ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan sefydliadau yn ddibynnol iawn ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y sefydliadau o'u perfformiad eu hunain. Mae cwynion yn un ffordd o ddysgu am brofiadau defnyddwyr; mae'n bwysig felly bod gan ddefnyddwyr lais sy'n galluogi sefydliadau i ddeall perfformiad yn well, i wneud newidiadau ac i wella'n barhaus.

5 https://www.ombwdsmon.cymru/research-and-surveys/arolwg-ymwybyddiaeth-cenedlaethol/

**3.142** Wrth i ni symud fwyfwy at ddull o gyd-reoleiddio, rydym am annog defnyddwyr y Gymraeg i godi pryderon a phroblemau maent yn eu profi yn uniongyrchol â'r sefydliad dan sylw pan fo modd. Ni fydd hyn yn ein rhwystro i gynnal ymchwiliad i gŵyn yn syth, a gosod camau gorfodi priodol pe bai angen. Ond drwy weithredu fel hyn, credwn fod potensial i ymdrin â chwynion yn fwy effeithiol, gan adfer cydymffurfiaeth yn gynt mewn nifer o achosion.

### Astudiaeth achos

Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn i ni mewn perthynas â thudalennau gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol. Roedd y gŵyn yn ymwneud â fideos Saesneg yn cael eu huwchlwytho i dudalennau Cymraeg y wefan. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gŵyn i'r awdurdod lleol, derbyniom ymateb ar unwaith, a chafodd y fideos eu tynnu i lawr yn syth. Rhoddwyd camau mewn lle i ail hyfforddi staff am ofynion y safonau yn y cyd-destun hwn.

Ymatebodd y Cyngor yn rhagweithiol gan gymryd pob cam byddai'r Comisiynydd wedi eu gorfodi yn sgil ymchwiliad. Drwy ymateb yn gadarnhaol i'r gŵyn, llwyddwyd i sicrhau datrysiad effeithiol, gan adfer cydymffurfiaeth heb fod angen ymyrraeth gan y Comisiynydd.

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ddiffyg datganiad oedd yn croesawu cyswllt yn y Gymraeg ar wefan sefydliad, a gwall â theclyn testun-i-lais ar yr un wefan. Gan fod cyfrifoldeb y sefydliad am y deunydd dan sylw yn glir, cysylltwyd â'r sefydliad i amlygu'r gwallau ac i ofyn iddynt gywiro'r mater.

Roedd y datganiad croesawu cyswllt wedi ei newid yr un diwrnod, a'r sefydliad wedi cysylltu â'r cwmni trydydd parti oedd yn gyfrifol am y teclyn hygyrchedd i geisio datrysiad. Er bod pryder y byddai'r broblem â'r teclyn testun-i-lais yn anoddach i'w datrys, cafwyd gwybod gan y sefydliad ymhen ychydig ddyddiau bod y gosodiadau wedi eu newid gan y darparwr system.

Drwy gysylltu a rhoi gwybod yn syth i'r corff, roedd yn bosibl sicrhau datrysiad llawn o fewn llai na pum diwrnod gwaith.

**3.143** Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'n polisi gorfodi i gefnogi a hwyluso'r ffordd yma o weithio. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd yn effeithiol, rhaid i sefydliadau fod:

- â threfniadau cadarn mewn lle
- yn agored i drafod pryderon a chwynion
- yn rhagweithiol yn annog adborth defnyddwyr yn barhaus
- yn ymrwymedig i'r nod o wella profiad defnyddwyr o dderbyn gwasanaethau Cymraeg.

**3.144** Byddwn yn gweithio â sefydliadau yn ystod y flwyddyn i ddod i sicrhau bod gweithdrefnau hygyrch a phriodol yn eu lle i ddelio â chwynion iaith, ac yn rhoi cyngor iddynt ar sut i gryfhau eu trefniadau lle bo angen.

**3.145** Mae hefyd dyletswydd ar nifer o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau i gael trefniadau goruchwylio cydymffurfio wedi eu hamlinellu yn glir mewn dogfen gyhoeddedig.

**3.146** Un o brif amcanion y Comisiynydd wrth reoleiddio perfformiad a chydymffurfiaeth sefydliadau yw hybu hunan-reoleiddio.

**3.147** Mae gan rai sefydliadau drefniadau hunan-reoleiddio cadarn mewn lle ac maent yn goruchwylio cydymffurfiaeth yn gyson. Mae modd darllen am arfer hunan-reoleiddio Partneriaeth Cyd-wasanaethau GIG Cymru ar ein gwefan.

### Prif Gwnstabl Heddlu Gwent

Mae Heddlu Gwent wedi datblygu dull syml ond effeithiol i sicrhau eu bod yn cynnal llywodraethiant ac atebolrwydd am y Gymraeg ar bob lefel o'r corff. Drwy greu dogfen olrhain cynnydd sy'n rhoi cyfrifoldeb i bob adran o'r Heddlu adrodd yn gyson ar lefelau cydymffurfiaeth mae ganddynt ddarlun clir ar draws y sefydliad o lefelau cydymffurfiaeth pob man gwaith ac adran. Gan ddefnyddio teclyn seiliedig ar oleuadau traffig, mae uwch rheolwyr a llywodraethwyr y llu yn gallu nodi sicrwydd ar gyfer pob adran a gosod amcanion clir o ran gwella parhaus sy'n cael eu goruchwylio ar y lefel uchaf er mwyn sicrhau cynnydd.

3.148 Mae ein gwaith monitro hefyd yn dangos bod sefydliadau sydd â strwythur atebolrwydd a chadarn mewn lle yn tueddu i berfformio'n well yng nghyd-destun dyletswyddau cyflenwi gwasanaeth neu weithredol. Er enghraifft, mae lefelau cydymffurfiaeth yn uwch ymysg y sefydliadau hynny sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros weithrediad safonau'r Gymraeg ar lefel strategol gan eu cynnwys ar gofrestr risg corfforaethol a'u trafod yn rheolaidd ymysg uwch arweinwyr.

3.149 Yn syml, golyga hyn fod gwaith dwys wedi ei gynnal i ystyried nid yn unig sut i gydymffurfio â dyletswyddau ond hefyd sut i oruchwylio a mesur llwyddiant yn rheolaidd.

3.150 Mae hyn yr un mor wir ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Er enghraifft, gwelwn fod y sefydliadau hynny sydd ag aelod o staff neu dîm o staff penodol â chyfrifoldeb penodol dros y Gymraeg a gweithrediad y cynllun iaith yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell. Nodwn hefyd fod cael lleoliad gwaith neu swyddogion wedi eu lleoli yng Nghymru yn dueddol o arwain at well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr a siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol.

## Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

3.151 Ar draws sampl o sefydliadau cyhoeddus a arolygwyd yn ystod 2023–2024, gwnaethom ganfod bod llawer ohonynt yn methu cydymffurfio'n llawn â rhai o'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r gofynion i gyhoeddi dogfennau sy'n amlinellu eu trefniadau goruchwylio (safonau 151, 157 a 163), a sut maent yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau (safonau 153, 159 a 165).

3.152 Er bod gan fwyafrif y sefydliadau hyn ddogfennau mewn lle, yn aml nid oeddent yn ymdrin â holl ofynion y safonau. Er enghraifft, roedd nifer wedi amlinellu eu trefniadau goruchwylio'n glir, ond heb gynnwys gwybodaeth am sut roeddent hefyd yn hybu a hwyluso defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg y cynigir ganddynt. Mae hyn yn atgyfnerthu'r neges rydym eisoes wedi ei ddatgan yn yr adroddiad hwn – yr angen i sefydliadau wneud llawer mwy i hybu gwasanaethau Cymraeg, a'u gwneud yn hawdd i'w defnyddio.

3.153 Oherwydd fod gofynion y safonau yma'n gysylltiedig, ac yn aml yn gorgyffwrdd â'i gilydd, mae nifer o sefydliadau wedi dewis cyfuno'r gofynion i un ddogfen. Er y byddai'r arferiad hwn yn gwbl synhwyrol o ran cynnig eglurder a rhwyddineb i ddefnyddwyr pe bai'r dogfennau wedi eu llunio'n llwyddiannus, gwelir yn gyffredinol fod y dull hwn yn aml yn arwain at fylchau mewn manylion neu ddogfen sy'n gorsymleiddio'r sefyllfa gan hepgor trefniadau atebolrwydd.

**3.154** Mae nifer o sefydliadau hefyd yn cael anhawster gwahaniaethu rhwng yr angen i esbonio sut maent am gydymffurfio yn ymarferol, a sut maent am oruchwylio'r gydymffurfiaeth honno. Wrth drafod y gofynion mewn rhagor o fanylder â sefydliadau yn rhan o'n gwaith monitro, mae nifer ohonynt bellach wedi adnabod diffygion a chynnig addasiadau, neu greu dogfennau o'r newydd, i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

**3.155** Os ydym am weld cynnydd ystyrlon yng ngallu sefydliadau i hunan-reoleiddio ac i roi trefniadau goruchwylio cadarn mewn lle, mae'n bwysig bod y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn cael sylw teilwng gan sefydliadau.

**3.156** Gan ystyried fod sawl blwyddyn bellach wedi pasio ers i'r sefydliadau cyntaf ddechrau gweithredu safonau'r Gymraeg, mae cyfle yn ystod y cyfnod nesaf i adolygu a diweddaru rhai o'r dogfennau dan sylw, ac i ystyried pa addasiadau sydd eu hangen i gryfhau trefniadau llywodraethiant er budd defnyddwyr y Gymraeg.

# Atodiad 1: Trosolwg o ganlyniadau gwirio cyffredinol

Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o'r sampl oedd wedi darparu gwasanaeth yn Gymraeg ar gyfer pob un o'r gweithgareddau dan sylw.

Mae'r ganran yn seiliedig ar ganlyniadau pob un o'r sefydliadau a arolygwyd sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg a enwir yn rhan o'r sampl yn Atodiad 3.

| Gwasanaeth | Canran |
|---|---|
| Gwasanaethau ffôn: delio â'r alwad yn llawn yn Gymraeg | 56% |
| Gohebiaeth Cymraeg: ateb Cymraeg[6] | 88% |
| Gwefannau: tudalennau ar gael yn Gymraeg | 91% |
| Cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac X): post ar gael yn Gymraeg | 89% |
| Deunydd cyhoeddusrwydd ar-lein ar gael yn Gymraeg | 70% |
| Dogfennau ar gael yn Gymraeg | 89% |
| Ffurflenni ar gael yn Gymraeg | 83% |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 83% |
| Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg | 84% |

6 Pan dderbyniwyd ateb o gwbl.

# Atodiad 2: Tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac amrywiol, gan gynnwys:

- Monitro – cynnal arolygon profiad defnyddwyr (gwirio gwasanaethau fel gohebiaeth, ffôn, ffurflenni, dogfennau, hunaniaeth gorfforaethol, gwefannau ac ati)
- Gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi
- Cyswllt â sefydliadau – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau
- Cyfarfodydd casglu tystiolaeth.

O ran arolygon profiad defnyddwyr, dylid nodi bod y canlyniadau'n seiliedig ar wirio gwasanaethau pob sefydliad rheoliadau rhif 1 a 7, a sampl o gyrff rheoliadau rhif 2, 4, 5 a 6 yn ogystal â detholiad o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Mae rhestr o'r sefydliadau oedd yn destun arolygon isod. Noder felly nad yw'r cymariaethau rhwng y sampl blynyddol ar gyfer rhai setiau rheoliadau yn cymharu'r un sefydliadau. Fodd bynnag, mae'n cynrychioli perfformiad sefydliadau o fewn y set rheoliadau dros amser. Noder hefyd fod gwirio gwasanaethau cynlluniau iaith yn ystyried y gwasanaethau yn unol â safonau'r Gymraeg, er efallai nad yw'r ymrwymiad yr un peth bob tro.

Cynhaliwyd yr arolygon gwirio gan swyddogion y Comisiynydd. Gwiriwyd y gwasanaethau dair gwaith yn ystod y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion gan ddefnyddio methodoleg glir yn seiliedig ar ofynion y safonau o ran adnabod cydymffurfiaeth.

Profiad defnyddwyr yw prif nod y gwaith gwirio, fodd bynnag roedd y gwirio yn ystyried gofynion y safonau yn llawn, a chyfeirir at y rhain yn yr adroddiad pan yn berthnasol i nodi'r angen am well cynllunio ac ati.

Oherwydd penderfyniadau a wnaed yn sgil y pandemig nid yw arolygon wedi eu hallanoli wedi cymryd lle yn ystod y blynyddoedd diwethaf; golyga hyn nad oes data ar berfformiad â gwasanaethau megis arwyddion a ddangosir gan gyrff, derbynfeydd a pheiriannau hunanwasanaeth wedi ei gynnwys gan nad oedd modd eu gwirio.

### Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg

Cynhaliwyd arolwg ar ein rhan gan gwmni Beaufort ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023. Roedd 408 o ymatebwyr dros 16 oed o bob awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o'r sampl, â thrawstoriad oedran, dosbarth cymdeithasol a lleoliad daearyddol.

Roedd 186 o'r ymatebwyr yn adnabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl a 222 ddim yn rhugl.

# Atodiad 3: Rhestr o sefydliadau a arolygwyd ar gyfer canfyddiadau arolygon gwirio

**Rheoliadau Rhif 1**

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru.

**Rheoliadau Rhif 2**

- Colegau Cymru
- Opera Genedlaethol
- Comisiynydd Plant
- Comisiynydd Pobl Hŷn
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Comisiwn Etholiadau
- Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cwmni Benthyciadau
- Estyn
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol
- Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Y Gorfforaeth Darlledu Brydeinig
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau
- Data Cymru.

**Rheoliadau Rhif 4**

- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Tribiwnlys Addysg Cymru
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

**Rheoliadau Rhif 5**

- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
- Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.

**Rheoliadau Rhif 6**

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Coleg Gwyr Abertawe
- Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Pen-y-bont
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp NPTC
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol De Cymru
- Y Brifysgol Agored.


**Rheolidau Rhif 7**

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg**

- Cyllid a Thollau EF
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Swyddfa'rGwarcheidwad Cyhoeddus
- Tŷ'r Cwmnïau
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau
- Asiantaeth Taliadau Gwledig
- Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
- Dŵr Cymru
- Grwp y Post Brenhinol
- Hafren Dyfrdwy
- Hybu Cig Cymru.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner




FF: 0345 6033 221

E: post@cyg-wlc.cymru

@comygymraeg

@comygymraeg

ComisiynyddyGymraeg

Comisiynydd y Gymraeg/
Welsh Language Commissioner

comisiynyddygymraeg.cymru